Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

Cyf/My Ref:: MG/DJ
Eich Cyf/Your Ref::

Dyddiad/Date: Medi 2023

Rhieni / Gofalwyr

**Annwyl rieni / gofalwyr,**

**Diweddariad i rieni ar Goncrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerthedig (RAAC)**

Byddwch wedi clywed am y materion sy'n ymwneud â defnyddio Concrit Awyredig Awtoclafedig Cyfnerthedig (RAAC) sydd wedi'u hadrodd yn eang yn y cyfryngau a hoffem roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y sefyllfa bresennol yma yng Nghaerdydd.

Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu archwiliadau safleoedd ysgol ac mae archwilwyr arbenigol wedi bod yn ymchwilio i bresenoldeb RAAC ers mis Mai.

Hyd yn hyn nid oes unrhyw RAAC wedi'i ddarganfod.

Mae'r rhaglen archwilio'n blaenoriaethu adeiladau ysgolion a adeiladwyd pan ddefnyddiwyd y deunydd hwn fel mater o drefn a bydd yn parhau nes y bydd yr holl adeiladau perthnasol wedi'u harchwilio, disgwylir i'r rhaglen hon gael ei chwblhau erbyn diwedd mis Medi.

Pe bai unrhyw RAAC a amheuir yn cael ei ddarganfod mewn ysgol, byddai mesurau diogelwch yn cael eu rhoi ar waith ar unwaith, a bydd ymgynghorydd arbenigol RAAC yn cynnal asesiad manwl a fydd yn cynghori ar gamau adfer a threfniadau diogelwch all fod yn angenrheidiol.

Os bydd hyn yn digwydd, bydd unrhyw ysgol yr effeithir arni yn cael gwybod a bydd rhieni'n cael eu hysbysu'n uniongyrchol.

Gobeithiwn y bydd hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i chi.

Cofion cynnes,

M. J. Godfrey

**Melanie Godfrey**
**Director of Education and Lifelong Learning/**
**Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Donna Jones**
**Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Ystadau Sirol, Cyngor Caerdydd, Assistant Director, County Estates, Cardiff Council**

GWEITHIO DROS GAERDYDD, GWEITHIO DROSOCH CHI
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Byddwn yn cyfathrebu â chi yn ôl eich dewis, dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

WORKING FOR CARDIFF, WORKING FOR YOU
The Council welcomes correspondence in Welsh, English or bilingually. We will ensure that we communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER